




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028



Cydraddoldeb

Tegwch

Mae cydraddoldeb a thegwch yn bethau gwahanol

Mae cydraddoldeb yn golygu hyrwyddo tegwch a rhoi'r un peth i bawb, ar sail bod gan bawb yr un anghenion.

Mae tegwch yn golygu sicrhau bod pobl yn cael yr un cyfleoedd ond gan gydnabod y gallai fod ganddynt anghenion gwahanol.

Weithiau gall ein gwahaniaethau, ein profiadau a'n hanes greu rhwystrau i gyfranogiad, felly mae'n rhaid i ni yn gyntaf sicrhau tegwch cyn y gallwn fwynhau cydraddoldeb.

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Pwy ydym ni	2
Ein poblogaeth	4
Cefndir	5
Y Gymraeg	6
Gofalwyr Di-dâl	7
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol	7
Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog	7
Newidiadau ers Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024	7
Croestoriadedd	8
Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol	8
Sut wnaethom ymgysylltu a beth wnaethom ddysgu	10
Yr hyn ddywedoch wrthym	10
Ystyriaethau Ehangach	12
Adroddiadau Cenedlaethol	13
Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2024-28	14
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 1 - Arweinyddiaeth gan bawb	15
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2 - Gweithio i wella iechyd a llesiant pawb	20
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 3 - Gwreiddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	24
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 4 - Bod yn gyflogwr delfrydol	30
Casgliad	35
Monitro a Gwerthuso	35
Cysylltu â ni	35

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion 2024-2028 ar eu newydd wedd sy'n nodi ein cyfeiriad arfaethedig dros y pedair blynedd nesaf i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt. Mae ein cynllun yn ymwneud â'n rôl fel cyflogwr, yn ogystal â'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i gleifion, teuluoedd, gofalwyr a'n poblogaeth ehangach.

Dyma ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, sy'n adeiladu ar ein hamcanion presennol:

- Amcan Cydraddoldeb 1 - Arweinyddiaeth gan bawb
- Amcan Cydraddoldeb 2 - Cydweithio i wella iechyd a llesiant pawb
- Amcan Cydraddoldeb 3 - Ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Amcan Cydraddoldeb 4 - Bod yn gyflogwr delfrydol


Rydym wedi ymrwymo i weithio i ymgysylltu a chynnwys ein cymunedau yn barhaus wrth gefnogi cyfleoedd cyfartal i'n poblogaeth ac wrth hybu eu hiechyd a llesiant. Yn ddiweddarach yn y cynllun hwn (o dudalen 17 ymlaen) rydym wedi nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf i ddangos sut y byddwn yn symud ymlaen â gweithredu ein hamcanion. Byddwn yn cynnal adolygiad pwynt canol ar ddiwedd 2025 ac yn adnewyddu ein cynllun gweithredu ar gyfer y ddwy flynedd olaf yn seiliedig ar y cynnydd a wnawn a'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Cyfrifoldeb yr holl weithwyr yw gweithredu'r cynllun a'r amcanion. Mae hyn yn cynnwys aelodau ein Bwrdd, staff, gwirfoddolwyr, asiantau a chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau neu'n gwneud gwaith ar ran y Bwrdd Iechyd. Er y bydd rhai camau gweithredu'n cael eu cymryd yn gorfforaethol, disgwylir y bydd pob maes gwasanaeth yn y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau gweithredu sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol troswaol y Bwrdd Iechyd. Gwyddom fod creu amgylchedd teg a chynhwysol yn aml yn golygu newid diwylliannau, herio arferion hirsefydlog a chwalu rhwystrau. Byddwn yn cydweithio i gyflawni ein hamcanion ac i greu amgylchedd tecach, mwy cyfiawn a mwy cynhwysol i bawb.

Pwy ydym ni

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau gofal iechyd y GIG i bobl yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a'r siroedd cyfagos. Mae gennym dros 13,000 o aelodau staff sy'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty, iechyd meddwl ac anableddau dysgu ar gyfer tua 383,000 o bobl ar draws chwarter ehangdir Cymru. Gwnawn hyn mewn partneriaeth â'n tri awdurdod lleol a chydweithwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys ein gwirfoddolwyr, a hynny drwy:

- Pedwar prif ysbyty: Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin, Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli ac Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlfordd;
- Saith ysbyty cymunedol: Dyffryn Aman a Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin; Tregaron, Aberaeron ac Aberteifi yng Ngheredigion; Ysbyty Dinbych-y-pysgod a Chanolfan Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ysbyty De Sir Benfro yn Sir Benfro;
- 48 meddygfa (chwech yn feddygfeydd a reolir), 47 deintyddfa (gan gynnwys tri orthodontig), 99 o fferyllfeydd cymunedol, 44 o bractisau offthalmig cyffredinol (43 yn darparu Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru a 34 o wasanaethau golwg gwan), 17 o ddarparwyr gofal yn y cartref yn unig ac 11 canolfan iechyd;
- Lleoliadau niferus yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu;
- Gwasanaethau tra arbenigol a thrydyddol a gomisiynir gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, cydbwyllgor sy'n cynrychioli saith bwrdd iechyd ledled Cymru.



Ein staff

Rydym am i'n staff gynrychioli ein cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i wneud cydraddoldeb yn realiti. Rydym yn annog pobl o bob cefndir a grŵp ethnig i wneud cais am ein swyddi ac yn monitro hyn trwy gyhoeddi ein hadroddiadau Blynnyddol ar Gydraddoldeb a Bwlch Cyflog y Gweithlu. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 13,149 o staff.




Gwirfoddoli



Mae gwirfoddolwyr yn helpu i hyrwyddo profiad y claf trwy roi o'u hamser o'u gwirfodd. Mae gwirfoddoli yn galluogi pobl i deimlo eu bod yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r GIG; mae hefyd yn ffordd wych o gael gwybod am y gwaith sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac mae'n darparu profiad bywyd go iawn o ryngweithio â chleifion, perthnasau ac ymwelwyr. I ddod yn wirfoddolwr rhaid bod dros 16 oed. Rydym yn cynnig llawer o rolau gwirfoddoli gwahanol ar draws Hywel Dda. Mae gennym wirfoddolwyr yn cefnogi mewn llawer o wahanol feysydd. Gall gwirfoddolwyr fod yn gyfeillion cleifion ar wardiau ysbyty, gallant gynnig cymorth mewn unedau brys, adrannau cleifion allanol a wardiau plant. Mae ein gwirfoddolwyr hefyd yn cyfarfod ac yn cyfarch, yn rhedeg y troli siop a'r troli llyfrgell, yn rhedeg negeseuon fferyllfa a llawer mwy. Mae gan y Bwrdd Iechyd 169 o wirfoddolwyr ar hyn o bryd.

Ein poblogaeth

Mae'r ffeithlun isod yn rhoi darlun o nodweddion y bobl sy'n byw yn ardal Hywel Dda ac mae wedi'i dynnu o gyfartaleddau'r data ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.



* Mae dimensiynau amddifadedd a ddefnyddir i ddosbarthu aelwydydd yn ddangosyddion sy'n seiliedig ar bedair nodwedd aelwyd. – Addysg, Cyflogaeth, Iechyd a Thai ([Amddifadedd aelwydydd – Mapiau Cyfrifiad, SYG](https://www.ons.gov.uk/census)). Data gan SYG o Gyfrifiad 2021 <https://www.ons.gov.uk/census>

Cefndir

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) wedi ymrwymo i roi pobl wrth galon popeth a wnawn. Ein gweledigaeth yw creu diwylliant ac amgylchedd sefydliadol hygyrch a chynhwysol i bawb. Mae hyn yn cynnwys ein staff, y rhai sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â phartneriaid sy'n gweithio gyda ni boed yn sefydliadau statudol, partneriaid trydydd sector neu ein cymunedau. Mae hyn yn golygu meddwl am bobl fel unigolion a mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel ein bod yn trin pawb yn deg, gydag uniondeb, urddas a pharch, beth bynnag fo'u cefndir a'u credoau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymwneud â thrin pawb mewn ffordd deg ac, fel corff cyhoeddus, mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb i hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da rhwng pawb, yn y ffordd yr ydym yn darparu ac yn dylunio ein gwasanaethau a'n polisïau. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn waeth na phobl eraill oherwydd eu 'nodweddion gwarchodedig' sef:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred (gan gynnwys dim cred grefyddol)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd, yn ei bolisïau a'i arferion, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl nad ydynt;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl nad ydynt.

Wrth feddwl am sut i hybu cyfle cyfartal, mae angen i ni hefyd:

- Ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno.
- Diwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel.
- Ystyried sut y byddwn yn mynd i'r afael â rhagfarn a chamddealltwriaeth.

Mae cyflawni dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010 a darparu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion ein cymunedau sy'n deg ac yn gyfiawn yn fusnes i

bawb ac yn cynnwys ymagwedd sefydliad cyfan. Disgwylir i'n staff lle bynnag y maent yn gweithio yn y Bwrdd Iechyd fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- sut y gallant gyfrannu at ddarparu gwasanaethau teg, gydag urddas a pharch
- sut y gallant gyfrannu at wneud yr amgylchedd gwaith yn gynhwysol ac yn fan lle mae'r holl staff yn teimlo'n rhydd i fod yn nhw eu hunain ac yn gallu cyflawni eu potensial.

Er bod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion yn seiliedig ar ddyletswyddau Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, nid yw'n sefyll ar ei ben ei hun, ond mae wedi'i ymgorffori mewn cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae ein gwaith i symud yr agenda cydraddoldeb yn ei blaen yn gysylltiedig â sawl darn o ddeddfwriaeth, yr hyn sy'n sbarduno polisi a chanfyddiadau adroddiadau allweddol gan gynnwys:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Safonau ar gyfer Gwella Iechyd a Llesiant Pobl Ddigidartref a Grwpiau Agored i Niwed Penodol – Llywodraeth Cymru
- Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar y Synhwyrddau – GIG Cymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Rhaglen Gwella Bywydau Anabledd Dysgu – Llywodraeth Cymru
- Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan – Llywodraeth Cymru/Improvement Cymru
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 – Llywodraeth Cymru
- Mwy na geiriau – Llywodraeth Cymru
- Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Llywodraeth Cymru
- Dyletswydd Cyfamod y Lluedd Arfog – Llywodraeth y DU
- Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru – Llywodraeth Cymru
- Cynllun Gweithredu LGBTQ+ – Llywodraeth Cymru
- A yw Cymru'n Decach? (2023) – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Gymraeg

Er nad yw wedi'i rhestru fel nodwedd warchodedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb, mae hawliau'r Gymraeg wedi'u diogelu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae gan Fesur y Gymraeg 2011 set o Safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb a darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol. Mae adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyhoeddi fel dogfen ar wahân ac mae'n dangos sut rydym yn parhau i ddarparu cynllun iaith Gymraeg sy'n cefnogi ein huchelgeisiau i hyrwyddo a defnyddio ein hiaith a'n diwylliant Cymraeg ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn ymgysylltu ac yn ysbrydoli ein staff, cleifion, a cymunedau ehangach. Asesir yr effaith ar y Gymraeg fel rhan o'n proses Asesu Effaith Cydraddoldeb, a ddefnyddir i gefnogi penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd.

Gofalwyr Di-dâl

Er nad ydynt wedi'u rhestru fel nodwedd warchodedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb caiff gofalwyr di-dâl eu hamddiffyn trwy gysylltiad fel rhywun sydd â chyfrifoldebau gofalu am

berson anabl. Canfu Cyfrifiad 2021 fod y gyfran fwyaf o bobl sy'n gofalu yng Nghymru o'r grŵp oedran 55-59, gyda thros 40,000 o bobl. Mae bod yn ofalwr di-dâl hefyd yn effeithio ar fenywod yn wahanol i ddynion. Mae gan fenyw siawns o 50% o ddarparu gofal erbyn ei bod yn 42 oed tra bod gan ddynion yr un siawns o ddod yn ofalwr erbyn eu bod yn 50 oed, rhyw wyth mlynedd yn ddiweddarach. Mae gofalu hefyd yn cynyddu'r risgiau o iechyd a llesiant gwaeth, yn cynyddu'r risg o adael cyflogaeth neu leihau oriau gwaith ac yn cynyddu'r risg o dlodi.

Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym ar 31 Mawrth 2021. Mae'n golygu, wrth wneud penderfyniadau strategol, megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, bod cyrff cyhoeddus yn ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r canlyniadau gwaeth i'r rheini sy'n profi anghydraddoldebau o ran canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol (y rhai sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas). Mae'r ddyletswydd yn cyfeirio at agweddau ar fywyd 'cymdeithasol' (eich cyfleoedd bywyd a ble rydych yn byw) ac 'economaidd' (faint o arian sydd gennych ar gyfer eitemau hanfodol ac anhanfodol). Asesir effaith anfantais economaidd-gymdeithasol fel rhan o'n proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, a ddefnyddir i gefnogi penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd.

Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl y dylai'r rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd, gael eu trin yn deg ac na ddylent fod dan anfantais oherwydd eu gwasanaeth. Daeth Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog i rym ym mis Tachwedd 2022, i godi ymwybyddiaeth o sut y gall bywyd y Lluoedd Arfog effeithio ar gymuned y Lluoedd Arfog a sut y gall achosi anfantais wrth gael mynediad at wasanaethau. Mae'r Ddyletswydd yn gofyn i gyrff cyhoeddus ystyried cymuned y Lluoedd Arfog ac effaith bywyd y Lluoedd Arfog wrth wneud penderfyniadau a datblygu polisiau a rhaglenni newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud hyn fel rhan o'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Newidiadau er ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Covid

Effeithiodd pandemig COVID-19 ar fywydau pobl ledled y byd, gan waethygu anghydraddoldebau ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Cafodd pawb eu heffeithio gan y firws, ond cafodd effaith llawer mwy ar rai grwpiau nag eraill, gan gynnwys, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl a phobl dlotaf Cymru. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd yn helpu i ddangos yr hyn yr ydym yn ei wneud i ymateb i'r anghydraddoldebau sydd wedi'u gwaethygu gan bandemig Covid-19.

Yr argyfwng costau byw

Mae'r argyfwng costau byw yn fwy na phroblem economaidd, mae'n creu heriau i iechyd a llesiant unigolion ac i gymunedau ledled Cymru. Gall diffyg mynediad at adnoddau

ariannol gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol, mae methu â fforddio digon o fwyd yn gadael pobl yn dioddef o ddiffyg maeth a methu â chadw cartref yn gynnes yn gadael pobl mewn perygl o fynd yn sâl, er enghraifft, â chlefydau anadlol.

Croestoriadedd

Bydd gan lawer o bobl fwy nag un nodwedd warchodedig ac, mae rhai agweddau ar bwy ydym ni, er enghraifft, ein hil, rhyw, ffydd a statws economaidd-gymdeithasol yn gallu cynyddu ein profiadau cadarnhaol neu gyfrannu at brofiadau negyddol, sy'n cael eu gwaethygu gan effeithiau cyfunol gwahaniaethu, rhwystrau a heriau lluosog. Rydym yn ceisio defnyddio dull croestoriadol i ddeall profiadau ein staff a'n poblogaeth a chymryd camau i ddileu anfantais. Byddwn yn gwneud hyn drwy ymgysylltu â'n gweithlu a'n cymunedau, yn enwedig y rhai sydd wedi profi gwahaniaethu ac sydd wedi bod dan anfantais oherwydd eu nodweddion personol. Byddwn yn sicrhau bod ymgysylltu'n ystyrlon ac yn ein helpu i sicrhau nad yw'r hyn a wnawn fel cyflogwr ac fel darparwr gofal iechyd yn creu rhwystrau.

Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Er mwyn sicrhau y cyflawnir ein strategaeth iechyd a gofal, "Canolbarth a Gorllewin Cymru lachach", mae gan y Bwrdd Iechyd chwe amcan strategol, sy'n ymwneud â'n pobl (staff, defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau) a gwasanaethau, y mae ein gweithgareddau o ddydd i ddydd yn eu cynnig. Mae ein strategaeth iechyd a gofal yn cyflwyno cyfleoedd enfawr i ni feddwl a gweithredu'n wahanol yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal ar y cyd â phartneriaid allweddol, gan gynnwys ein staff, Undebau Llafur, defnyddwyr gwasanaeth ac eraill sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y Bwrdd Iechyd. Mae mabwysiadu'r model cymdeithasol o iechyd yn golygu, wrth ddatblygu ac adolygu ein gwasanaethau, y byddwn yn ystyried ystod ehangach o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant, gan gynnwys materion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Gyda'n gilydd yn creu llefydd iach a charedig i fyw a gweithio yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru



Sut wnaethom ymgysylltu a beth wnaethom ddysgu

Fe wnaethom gynnal ymarfer ymgynghori aml-asiantaeth gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn ardal Dyfed Powys. Buom yn gweithio ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro, Addysg Uwch, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Defnyddiwyd arolwg, a oedd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd, ar gyfer ymgysylltu ar-lein ac wyneb yn wyneb, i gasglu barn ynghylch sut mae pobl o gefndiroedd gwahanol wedi profi prif feysydd bywyd:

- Addysg
- Gwaith
- Lefelau cyflog
- Mynediad at ofal a chymorth
- Tai
- Mynediad at drafnidiaeth
- Hamdden a mynediad at yr arfordir a chefn gwlad
- Iechyd
- Trosedd
- Mynediad at wasanaethau cyfiawnder
- Dylanwadu ar benderfyniadau
- Mynediad at wybodaeth a gwasanaethau digidol
- Cyd-dynnu mewn cymuned
- Ansawdd bywyd ers pandemig Covid-19, BREXIT, rhyfel Wcrain a'r argyfwng costau byw

Cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu bellach ar amcanion cydraddoldeb strategol drafft, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd â grwpiau cymunedol penodol sy'n adlewyrchu'r nodweddion gwarchodedig, i sicrhau bod y bobl y buom yn ymgysylltu â nhw yn gynrychioliadol o'n poblogaeth amrywiol.

Mae'r wybodaeth a'r adborth a gafwyd o'r gweithgareddau ymgysylltu wedi'u defnyddio i'n helpu i ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb diwygiedig. Bydd yr adborth, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd o'n gweithgareddau ymgysylltu parhaus â'n staff, cymunedau, rhwydweithiau staff a phwyllgorau mewnol yn cael eu defnyddio i helpu i lywio'r ffordd yr ydym yn cynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau yn barhaus.

Yr hyn wnaethoch ddweud wrthym

Gofynnem i chi ddweud wrthym am eich profiadau o brif feysydd eich bywyd, a sut roedd eich profiadau yn cymharu â'r boblogaeth ehangach. Ar draws y mwyafrif o'r meysydd hynny, dyma'r grwpiau nodweddion gwarchodedig y canfuwyd eu bod wedi cael profiadau llawer gwaeth/gwaeth:

- Pobl ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

- Pobl anabl
- Pobl hŷn

Dyma'r meysydd lle'r oedd grwpiau nodweddion gwarchodedig eraill hefyd wedi'u graddio fel rhai â phrofiad llawer gwaeth/gwaeth:

Maes bywyd	Grŵp nodweddion gwarchodedig
Gwaith	• Pobl sy'n feichiog/newydd roi genedigaeth
Lefelau cyflog	• Benywod • Pobl iau
Tai	• Pobl sengl • Pobl iau
Trosedd	• Pobl ddeurywiol, hoyw neu lesbiaidd • Benywod • Pobl anneuaidd • Pobl drawsrywiol
Dylanwadu ar benderfyniadau	• Pobl iau
Cyd-dynnu mewn cymuned	• Pobl ddeurywiol, hoyw neu lesbiaidd • Pobl anneuaidd • Pobl drawsrywiol
Ansawdd bywyd ers pandemig Covid-19, BREXIT, rhyfel Wcrain a'r argyfwng costau byw	• Pobl ddeurywiol, hoyw neu lesbiaidd • Pobl anneuaidd • Pobl sy'n feichiog/newydd roi genedigaeth • Pobl drawsrywiol • Pobl iau

Dyma'r rhai y'u graddiwyd fel rhai â phrofiadau gwell na rhai grwpiau nodweddion gwarchodedig eraill:

Maes bywyd	Grŵp nodweddion gwarchodedig
Addysg	• Pobl iau • Siaradwyr Cymraeg
Gwaith	• Siaradwyr Cymraeg
Lefelau cyflog	• Gwrywod • Siaradwyr Cymraeg
Mynediad at ofal a chefnogaeth	• Pobl sy'n feichiog/newydd roi genedigaeth
Tai	• Pobl hŷn • Pobl sy'n feichiog/newydd roi genedigaeth
Iechyd	• Pobl sy'n feichiog/newydd roi genedigaeth
Dylanwadu ar benderfyniadau	• Siaradwyr Cymraeg
Mynediad at wybodaeth a gwasanaethau digidol	• Pobl iau
Cyd-dynnu mewn cymuned	• Siaradwyr Cymraeg

Er ein bod wedi nodi'r tri grŵp uchaf sydd â phrofiad gwaeth o iechyd a meysydd eraill o fywyd, o gymharu â'r boblogaeth gyfan, rydym yn sylweddoli bod angen gwneud ymdrechion i wella profiad pob grŵp gwarchodedig wrth ddefnyddio ein gwasanaethau. Cyfrifoldeb pob maes gwasanaeth fydd nodi lle y dylent ganolbwyntio ar fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb neu gyflwyno mentrau cadarnhaol sy'n cyd-fynd â chyflawni amcanion cydraddoldeb strategol y Bwrdd Iechyd. Nodir rhai o'r camau gweithredu hyn yn ddiweddarach yn y Cynllun hwn.

Ystyriaethau Ehangach

Rydym yn cydnabod y gall yr holl feysydd bywyd a archwiliwyd yn ystod yr ymgynghoriad effeithio ar iechyd a llesiant a bod gennym hefyd ddyletswydd i fod yn gyflogwr teg a chynhwysol. Dyma ystyriaethau ehangach:

- **Addysg** – Canfuwyd mai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl a phobl hŷn oedd yn cael y profiadau gwaethaf o addysg. Gwelwyd bod pobl iau a siaradwyr Cymraeg yn cael y profiadau gorau o addysg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu model prentisiaeth i ehangu'r ystod o rolau prentisiaeth a chynnig amrywiaeth o fewn llwybrau gyrfa, i gynyddu cyfranogiad, yn arbennig, o fewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- **Gwaith/cyflog** - Gwelwyd bod pobl anabl, hŷn, Du, Asiaidd, Ethnig Leiafrifol, beichiog neu wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar yn cael y profiadau gwaethaf o gyflogaeth. Canfu'r arolwg hefyd fod person iau, yn fenyw, yn berson anabl neu'n Ddu, Asiaidd, Ethnig Leiafrifol wedi cael profiadau gwaeth mewn perthynas â chyflog. Roedd bod yn siaradwr Cymraeg yn golygu eich bod yn debygol o gael gwell profiad o waith a chyflog a bod yn ddyn, yn cael gwell profiad o waith. Rydym yn datblygu ein dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar fylchau cyflog, yn enwedig rhyw, anabledd ac ethnigrwydd a byddwn yn parhau i ddadansoddi ac adrodd ar ddata bwlch cyflog a byddwn yn defnyddio hwn i gymryd camau i fynd i'r afael â materion a nodwyd.
- **Tai** – Gwelwyd mai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl, pobl iau a'r rhai sengl oedd yn cael y profiadau gwaethaf o dai, gan adlewyrchu anawsterau pobl ifanc/sengl i ddod o hyd i dai fforddiadwy a'r diffyg tai hygyrch o faint addas.
- **Mynediad at drafnidiaeth** - Cafodd pobl anabl a phobl hŷn brofiad sylweddol waeth o drafnidiaeth, ac mae'n bwysig ystyried hyn wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd.
- **Mynediad at wybodaeth a gwasanaethau digidol** - Canfuwyd bod pobl iau yn cael profiad llawer mwy cadarnhaol o gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau digidol. Nodwyd bod pobl hŷn, pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol â phrofiad llawer gwaeth/gwaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Llywio Cynhwysiant Digidol i ddod â grŵp cydweithredol o wasanaethau allweddol ynghyd i fynd i'r afael â materion allgáu digidol.

- **Cyd-dynnu cymunedol** - Gwelwyd bod pobl anabl, trawsryweddol, Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, anneauaid neu ddeurywiol, hoyw neu lesbiaidd yn cael y profiadau gwaethaf o gyd-dynnu'n dda mewn cymuned. Credwyd bod siaradwyr Cymraeg yn cael y profiadau gorau o gyd-dynnu'n dda mewn cymuned.
- **Dylanwadu ar benderfyniadau** - Gwelwyd mai pobl iau, pobl anabl neu bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd â'r profiadau gwaethaf o ddylanwadu ar benderfyniadau. Canfyddwyd bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn cael gwell profiadau o ddylanwadu ar benderfyniadau na'r boblogaeth gyfan.

Pan ofynnwyd a oedd ganddynt ddigon o incwm cartref i dalu am filiau'r cartref a chostau byw hanfodol, dywedodd 12 y cant o ymatebwyr yr arolwg nad oedd ganddynt. Mae hyn yn ein hatgoffa o effaith yr argyfwng costau byw a pham ei bod yn hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried effaith economaidd-gymdeithasol ei benderfyniadau, fel sy'n ofynnol gan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Adroddiadau Cenedlaethol

Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad o'r enw 'A yw Cymru'n Decach 2023?' ac rydym wedi defnyddio'r canfyddiadau allweddol i'n helpu i ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb strategol diwygiedig. Amlygodd yr adroddiad effaith pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw ac mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Mae dros un o bob pump o bobl a thros un o bob pedwar plentyn yn byw mewn tlodi incwm a chyfraddau tlodi ar gyfer y rhai 65-74 oed wedi codi o 10.4% yn 2010/11 i 18% yn 2019/20.
- Mae gofalcwyr ifanc yn fwy tebygol nag eraill o'u hoedran o fyw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalcwyr di-dâl (12%) o gymharu â dynion (9%).
- Mae'r cyfraddau diweithdra uchaf ymhlith y grŵp oedran 16-24 oed ac mae lefelau tlodi ar gyfer y grŵp hwn yn parhau i fod yn uchel ar 28%.
- Mae oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion nad ydynt yn anabl.
- Mae pobl draws hŷn yng Nghymru yn adrodd nad oes gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol y wybodaeth sydd ei hangen i ofalu amdanynt.
- Mae grwpiau ethnig leiafrifol yng Nghymru yn fwy tebygol o adrodd am brofiadau o wahaniaethu a bwlio yn y gweithle.
- Mae lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi (40%).
- Mae'r bwlch cyflog rhwng dynion a merched yn parhau, gan fod menywod, ar gyfartaledd, yn cael eu talu 14.1% yn llai na dynion. Fodd bynnag, mae'r bwlch wedi lleihau.
- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn perygl o ddioddef gwahaniaethu a bwlio yn y gweithle ac yn profi iechyd corfforol a meddyliol gwaeth nag oedolion heterorywiol.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2024-28

Mae pedwar amcan cydraddoldeb strategol trosfwaol ar gyfer y cyfnod 2024-2028 wedi'u datblygu sy'n adeiladu ar ein hamcanion blaenorol a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Mae'r synergedd yn ystyried y cyngor a dderbyniwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y gallai fod angen cynnal yr un amcan am gyfnod sylweddol er mwyn cyflawni newid sylfaenol hirdymor.

Dyma'r amcanion cydraddoldeb strategol ar gyfer 2024-28:

- Arweinyddiaeth gan bawb
- Cyd-weithio i wella iechyd a llesiant pawb
- Gwreiddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Bod yn gyflogwr delfrydol

Yn yr adrannau canlynol rydym yn esbonio pam fod yr amcanion hyn yn bwysig, beth maent yn bwriadu ei wneud a pha ganlyniadau rydym yn gobeithio eu cyflawni o ganlyniad i bob amcan. Rydym hefyd wedi nodi cynllun manylach o'r camau y bwriadwn eu cymryd yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun hwn i fynd i'r afael â phob amcan ac wedi dweud sut y byddwn yn mesur ein cynnydd. Byddwn yn cynnal adolygiad pwynt canol ar ddiwedd 2025, i osod camau gweithredu ar gyfer y ddwy flynedd olaf, gan adeiladu ar y cynnydd a wnawn ac unrhyw flaenoriaethau newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 1 – Arweinyddiaeth gan bawb

Nod	Mae staff ar bob lefel, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd, yn mynd ati i hyrwyddo a hwyluso diwylliant o gynhwysiant a llesiant ar draws y sefydliad.
Canlyniad	- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi anghenion a gwahaniaethau'r holl staff a defnyddwyr gwasanaeth. - Bydd staff, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd, yn defnyddio eu profiadau byw ac yn gweithredu fel modelau rôl i greu profiadau cadarnhaol i gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth. - Bydd staff a defnyddwyr gwasanaeth yn gwrthsefyll hiliaeth a phob math o wahaniaethu ac yn cael eu grymuso i leisio unrhyw bryderon.
Aliniad ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd:  Cyd-weithio i fod y gorau y gallwn fod  Defnydd cynaliadwy o adnoddau	

Cynllun Gweithredu 2024-2026

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant hyn?
Bydd staff, gan gynnwys aelodau bwrdd, yn defnyddio eu profiadau byw ac yn gweithredu fel modelau rôl i greu profiadau cadarnhaol i	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Aelodau'r Bwrdd a'r tîm	Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Cynllun Gweithredu LGBTQ+	Cynnwys aelodau'r Bwrdd yn weithredol wrth adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant hyn?
gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth.		Amrywiaeth a Chynhwysiant)		Cynnydd o 10% bob blwyddyn, yn nifer y staff sy'n ymwneud â gweithgareddau rhwydwaith staff.
Cyflwyno rhaglen flynyddol o hyfforddiant Gwylwyr Gweithredol a nodi cyfleoedd i ymgorffori hyfforddiant ar hiliaeth a gwahaniaethu mewn rhaglenni ychwanegol e.e. Rhaglenni Datblygu Rheolaeth, INFORM, Cynefino Corfforaethol, Gwneud Gwahaniaeth.	Diwedd Blwyddyn 2 Blwyddyn 2-4	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant a thîm Datblygu Pobl)	Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Cynllun Gweithredu LGBTQ+	Bydd staff yn hyderus i wrthsefyll hiliaeth a phob math o wahaniaethu ac yn cael eu grymuso i leisio unrhyw bryderon. Cynnydd blynyddol o 10% yn nifer y staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant Gwylwyr Gweithredol.
Bydd pob rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn ymgorffori pynciau sy'n ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant a llesiant.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Tîm Datblygu Pobl a thîm Datblygu Sefydliadol)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Mae gan staff sy'n cwblhau rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth yr hyder a'r medrau i ddod yn arweinwyr mwy cynhwysol. Gellir mesur llwyddiant trwy sgorio cwestiynau yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth o: • Arolygon ymgysylltu • Arolygon ymadael

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant hyn?
Unrhyw anghydraddoldebau, arfer annheg a bwlio ac aflonyddu yn cael eu nodi a'u trin yn brydlon.	Blwyddyn 1	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Tîm Gweithlu)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu	Bydd monitro ac adrodd ar unrhyw achosion o fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu yn ymwneud â staff yn cynnwys nodi nodweddion gwarchodedig yn gywir.
Bydd Rheolwyr Perthynas Datblygu Sefydliadol yn gweithio gyda staff ar bob lefel i nodi patrymau diwylliannol a themâu sy'n dod i'r amlwg er mwyn cyddatblygu neu ddiweddarau Cynlluniau Diwylliant Pobl.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Tîm perthnasoedd Datblygu Sefydliadol)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Bydd gan bob cyfarwyddiaeth Bwrdd lechyd a grŵp staff allweddol Gynllun Diwylliant Pobl sy'n seiliedig ar dystiolaeth sefydliadol a dysgu.
Bydd Tîm Profiad y Claf yn arwain prosiect ar empathi – i ddeall a gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau a phrofiadau bywyd amrywiol ein cleifion a'n cymunedau yn well.	Diwedd Blwyddyn 2	Nyrsio a Sicrwydd Ansawdd (Tîm Profiad y Claf)	Siarter Gwella Profiad Siarter Plant Siarter Celfyddydau mewn lechyd	Bydd hyn yn gwella'r diwylliant o gyfathrebu tosturiol ac empathi fel gwerth craidd.
Bydd y Bwrdd lechyd yn ymrwymo i Raglen Darpar Aelodau'r Bwrdd, gan sicrhau	Blwyddyn 1	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru	Cynyddu nifer y bobl sy'n gallu dangos tystiolaeth fwy effeithiol o'u gallu i

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant hyn?
addysg, mentora a chefnogaeth i gyfranogwyr, yn enwedig pobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.		(Aelodau Bwrdd a thîm Datblygu Sefydliadol)		gyflawni rôl aelod anweithredol a chynyddu'r amrywiaeth ar Fyrddau.
Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno cynllun Iaith Gymraeg sy'n cefnogi ein huchelgeisiau i wella ein hiaith a'n diwylliant Cymreig, ac yn ymgysylltu ac yn ysbrydoli ein staff, cleifion, a chymunedau ehangach.	Diwedd Blwyddyn 2	Cyfathrebu ac Ymgysylltu (Tîm Gwasanaethau'r Gymraeg)	Mwy na Geiriau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) Rheoliadau 2022	Cyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yn y polisi Sgiliau Dwyieithog, Cymraeg 2050, a Mwy na Geiriau tra hefyd yn ymdrechu i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
Darparu adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant i ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud i roi Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cymru ar waith.	Blwyddyn 1	Grŵp Cyngori Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol	Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru	Bydd adroddiad blynyddol y Bwrdd Iechyd yn dangos cynnydd sy'n symud y tu hwnt i gamau gweithredu gofynnol Llywodraeth Cymru.
Gweithio mewn partneriaeth yn fewnol a thrwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i roi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw fel penderfynydd allweddol	Erbyn Diwedd Blwyddyn 2	Iechyd Cyhoeddus a Llesiant	Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at y Grwpiau Llywio Tlodi ym mhob ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun sy'n nodi ystod o gamau

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant hyn?
iechyd ac anghydraddoldebau.				gweithredu i gefnogi staff, cleifion a theuluoedd sy'n profi caledi ariannol.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 2 – Cyd-weithio i wella iechyd a llesiant pawb

Nod	Bydd ein staff yn gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd.		
Canlyniad	- Byddwn yn parhau i wrando ar ein poblogaeth, yn enwedig y rhai sy'n draddodiadol yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau ac yn aml â chanlyniadau iechyd gwaeth. Byddwn yn defnyddio eu hadborth a'u profiad i'n helpu pan fyddwn yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. - Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid, megis sefydliadau eraill, y Trydydd Sector a chymunedau i leihau anghydraddoldebau iechyd a dileu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal.		
Aliniad ag amcan strategol y Bwrdd Iechyd:			
			
Cyd-weithio i fod y gorau y gallwn fod	Rhoi pobl wrth galon popeth a wnawn	Yr iechyd a llesiant gorau ar gyfer ein cymunedau	Gofal diogel, cynaliadwy, hygyrch a charedig

Cynllun Gweithredu 2024-2026

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
Ail-lansio a chryfhau'r Grŵp Tegwch Iechyd a chydweithio i roi camau gweithredu ar waith i leihau anghydraddoldebau iechyd.	Diwedd Blwyddyn 2	Iechyd Cyhoeddus a Llesiant	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol	Mwy o broffil a ffocws ar degwch iechyd mewn gwasanaethau, a gwaith y Bwrdd Iechyd gyda phartneriaid a phartneriaethau.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
Lleihau anghydraddoldebau yn y nifer sy'n cael brechlyn ar draws y Bwrdd Iechyd drwy gydweithio â chymunedau a sefydliadau i ddeall anghenion ein poblogaeth.	Diwedd Blwyddyn 2	Iechyd Cyhoeddus a Llesiant (Tîm Imiwneiddio)	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol	Ar gyfer y nifer sy'n cael y brechlyn, cyflawni gostyngiad o 5% yn y bwlc rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r cymunedau lleiaf difreintiedig.
Gwella cyfleoedd i unigolion o fewn grwpiau blaenoriaeth ac ardaloedd o amddifadedd i allu cael mynediad at y cynnig rhoi'r gorau i ysmegu a manteisio arno.	Blwyddyn 1	Iechyd Cyhoeddus a Llesiant (Tîm Gwella Iechyd y Boblogaeth a Llesiant)	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru Di-fwg	Bydd o leiaf 5% o'r boblogaeth sy'n ysmegu yn Hywel Dda wedi cael triniaeth i roi'r gorau i ysmegu.
Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau a brofir gan grwpiau digartref a grwpiau eraill sy'n agored i niwed i ddarparu cymorth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol)	Gwella Iechyd a Llesiant y Digartref a Grwpiau Bregus Penodol – Cynllun Gweithredu Iechyd	Cynnydd o 10% yn nifer yr unigolion sy'n cael eu cyfeirio ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar hybu ymyriadau iechyd cyhoeddus e.e. bwyta'n iach, rhoi'r gorau i ysmegu, ymarfer corff neu dderbyn gwybodaeth am sut i gael mynediad at wasanaethau iechyd.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
Parhau i wrando ar ein poblogaeth, yn enwedig y rhai sy'n draddodiadol yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau ac sy'n aml yn cael canlyniadau iechyd gwaeth. Defnyddio eu hadborth a'u profiad i'n helpu pan fyddwn yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau.	Diwedd Blwyddyn 2	Nyrsio a Sicrwydd Ansawdd (tîm Profiad y Claf, tîm Ymgysylltu a thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant)	Siarter Gwella Profiad	Bydd tystiolaeth o adborth yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddarparu a moderneiddio gwasanaethau, ac asesu'r effaith ar ein poblogaeth, gan gynnwys effeithiau anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd.
Gweithio mewn partneriaeth i weithredu Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog a gwella mynediad at driniaeth flaenoriaethol ar gyfer Cyn-filwyr cymwys.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog	Cynnydd blynyddol o 10% yn nifer y meddygfeydd sy'n ymuno â Chynllun Meddygon Teulu sy'n Gyfeillgar i Gyn-filwyr Addysg a Gwella Iechyd Cymru.
Gwella'r Rhaglen Llwybrau Iechyd i gynnwys gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael i gefnogi cyn-filwyr, gofalwyr di-dâl a phobl sy'n ddigartref neu mewn cartrefi bregus.	Blwyddyn 1	Strategaeth a Chynllunio (Tîm Rhaglen Trawsnewid)	Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog Gwella Iechyd a Llesiant y Digartref a Grwpiau Bregus Penodol – Cynllun Gweithredu Iechyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Bydd gwefan Llwybrau Iechyd yn cynnwys cwestiwn penodol i weithwyr iechyd proffesiynol i gadarnhau statws cyn-filwr a chymhwysedd triniaeth â blaenoriaeth. Bydd gwefan Llwybrau Iechyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ystod o wasanaethau cymorth cymunedol a gwasanaethau arbenigol eraill sydd ar gael i gyn-filwyr, gofalwyr

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
				di-dâl a phobl sy'n ddigartref ac mewn sefyllfa fregus o ran tai.
Gweithredu cynllun Rheilffordd Gwili i wella rheolaeth maes parcio Ysbyty Glangwili er budd cleifion, ymwelwyr a staff.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithrediadau (Uned Drafnidiaeth Ganolog)	Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda	Gwell defnydd o feysydd parcio, gyda gwell hygyrchedd i gleifion, ymwelwyr a staff a gostyngiad mewn tagfeydd.
Gweithio mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu darpariaeth trafndiaeth gymunedol bwrpasol i gefnogi mynediad i ac o safleoedd ein hysbytai a chanolfannau gofal integredig.	Blwyddyn 1	Gweithrediadau (Uned Drafnidiaeth Ganolog)	Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda	Treialu gwasanaeth newydd, mewn partneriaeth â Dolen Teifi, i wasanaethu Canolfan Gofal Integredig Aberteifi. Mwy o ymwybyddiaeth o ddarparwyr cludiant cymunedol a'r gwasanaethau sydd ar gael trwy ddull partneriaeth gyda'r sector cludiant cymunedol.
Sicrhau nad yw pobl ifanc dan anfantais wrth iddynt symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithrediadau (Pediateg Cymunedol)	Siarter Plant Siarter Rhianta Corfforaethol	Cynnydd mewn llwybrau pontio a thystiolaeth o weithio mewn partneriaeth rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 3 – Gwreiddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Nod	Mae ein staff yn defnyddio gwerthoedd y Bwrdd Iechyd i ddarparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhopeth a wnânt.
Canlyniad	• Bydd gan staff fynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu i wella eu gwybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. • Bydd gan staff ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion unigol ein defnyddwyr gwasanaeth a phoblogaeth amrywiol ac yn ymdrechu i ddiwallu'r anghenion hynny. • Byddwn yn ymgysylltu ac yn gwrandao ar y boblogaeth amrywiol yr ydym yn ei gwasanaethu, a sicrhau bod eu hanghenion yn ganolog i bopeth a wnawn.
Aliniad ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd:  Ymdrechu i ddarparu a datblygu gwasanaethau rhagorol  Gofal diogel, cynaliadwy, hygyrch a charedig  Rhoi pobl wrth galon popeth a wnawn	

Cynllun Gweithredu 2024 -2026

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
Cyflwyno rhaglen o hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar bynciau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig sy'n ychwanegol at y gofynion	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Datblygu Pobl a thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a	Ymwybyddiaeth gynyddol gan staff o sut i ddarparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n gwerthfawrogi anghenion unigryw pawb.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
gorfodol e.e. niwrowahaniaethu, nam ar y synhwyrâu, ymwybyddiaeth drawsryweddol.			Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar y Synhwyrâu Cynllun Gweithredu LGBTQ+	% y staff sy'n cofnodi bod ganddynt fwy o hyder ac ymwybyddiaeth o sut i roi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd (fel y cofnodwyd mewn gwerthusiadau hyfforddiant ac arolygon adborth).
Gwreiddio dull cydgynhyrchiol o wella'r holl wasanaethau a'r newidiadau i wasanaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu.	Diwedd Blwyddyn 2	Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Cynllun Gweithredu Gwella Iechyd, Gwella Bywydau Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl	Bydd rolau swydd yn cael eu datblygu ar gyfer pobl sydd â phrofiad byw o iechyd meddwl ac anableddau dysgu, i sicrhau y gallant gymryd rhan mewn grwpiau prosiect a chyfarfodydd bwrdd cyfarwyddiaeth, fel cynrychiolydd profiad bywyd.
Bydd yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â newid gwasanaeth ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cael eu cymeradwyo gan Grwpiau Darllen y Gyfarwyddiaeth.	Diwedd Blwyddyn 2	Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	Bydd unigolion sydd â phrofiad byw o iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn goruchwyllo dogfennau newid gwasanaeth.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
			Cynllun Gweithredu Gwella Iechyd, Gwella Bywydau Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl	
Darparu cymorth llesiant seicolegol i staff sy'n ystyried anghenion a dewisiadau unigryw unigolion.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Gwasanaeth Llesiant Seicolegol Staff)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg Matrics Cymru: Canllawiau ar gyfer Darparu Therapi Seicolegol ar sail Tystiolaeth yng Nghymru	Ystod eang o opsiynau hygyrch ar gael i staff sy'n ystyried anghenion amrywiol y staff. Bydd 100% o dîm Gwasanaeth Llesiant Seicolegol Staff wedi mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth ychwanegol yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig e.e. niwrodargyfeirio, nam ar y synhwyrâu, gwrth-hiliaeth, ymwybyddiaeth drawsryweddol.
Gwella'r profiadau i staff, cleifion a gofalwyr sydd â nam ar y synhwyrâu trwy weithredu'r cynllun achredu Cyfeillgar i Nam ar y Synhwyrâu yn ein hardaloedd cyhoeddus ac ardaloedd cleifion.	Erbyn Diwedd 20 25	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Partneriaeth a Chynhwysiant)	Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar y Synhwyrâu	Cynnydd o 20% yn nifer yr adrannau sy'n cymryd rhan yn y cynllun Achredu Sy'n Gyfeillgar i Nam ar y Synhwyrâu.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
Cynnal arolygon teithio cleifion ac ymwelwyr rheolaidd i nodi pa ddulliau a gwasanaethau trafndiaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd gan gleifion ac ymwelwyr ac i nodi rhwystrau a phroblemau o ran trafndiaeth a hygyrchedd, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau agored i niwed.	Erbyn diwedd 2025	Gweithrediadau (Uned Drafndiaeth Ganolog)	Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda	Bydd canlyniadau'r arolwg o'r arolygon teithio cleifion ac ymwelwyr yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad parhaus y Strategaeth Trafndiaeth a Hygyrchedd a'r mentrau i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.
Datblygu Cynllun Teithio Cynaliadwy ar gyfer pob un o'n cyfleusterau lechyd Cymunedol newydd. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar sut i sicrhau mynediad addas i grwpiau bregus.	Erbyn diwedd 2025	Gweithrediadau (Uned Drafndiaeth Ganolog)	Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda	Cynllun teithio cynaliadwy ar gyfer pob un o'n cyfleusterau lechyd cymunedol newydd, gan ystyried teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus, trafndiaeth gymunedol ac opsiynau teithio cynaliadwy eraill.
Sicrhau ein bod yn lleihau anghydraddoldebau i blant ac ieuencid drwy hybu llais y plentyn yn eu profiadau gofal.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithrediadau (Pediateg Cymunedol)	Siarter Plant Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn	Cynnydd yn nifer staff y Bwrdd lechyd sydd wedi'u hyfforddi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a thystiolaeth o wreiddio Siarter y Plant. Tystiolaeth o gyfranogiad plant a phobl ifanc wrth ddylunio gwasanaethau/llwybrau ac adborth plant a phobl ifanc.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth fydd llwyddiant yn hyn?
Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu gweld mewn modd amserol ar gyfer asesiadau ADHD.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithrediadau (Pediateg Cymunedol)	Cod Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrogyfeirio	Gostyngiad yn nifer y plant sy'n aros dros 26 wythnos am asesiad ADHD.
Bydd plant a phobl ifanc sy'n aros am asesiad diagnostig ar gyfer ADHD yn cael mynediad at gymorth cyn diagnosis a chyfeirio	Diwedd Blwyddyn 2	Pediateg Cymunedol	Cod Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrogyfeirio	Tudalen Rhyngrwyd bwrpasol wedi'i datblygu gyda gwybodaeth ar gyfer pob sir.
Darparu gwell gwasanaethau cleifion allanol i Blant yn Ysbyty Llwynhelyg yn unol â chanlyniad ymgynghoriad y Bwrdd Iechyd ar Wasanaethau Pediateg Brys ac Argyfwng. NB Bydd derbyniadau a gofal argyfwng yn parhau i gael eu darparu yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin.	Diwedd Blwyddyn 2	Menywod a Phlant, Tîm Cyflawni Gwasanaeth Pediateg	Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach: Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda	Bydd cynyddu gofod clinig cleifion allanol ynghyd â darparu clinig "Mynediad Cyflym" newydd, ffurfiol yn sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at ofal mor agos i'w cartrefi â phosibl ac mewn niferoedd mwy nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd plant sydd angen gofal cleifion mewnol a gwasanaethau mwy brys yn parhau i gael eu cyfeirio i Gaerfyrddin ond lle bo modd, a phan ystyrir eu bod yn ddiogel, bydd rhai o'r plant hyn hefyd yn gallu cael mynediad at ofal yn fwy lleol.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 4 – Bod yn gyflogwr delfrydol

Nod	Byddwn yn cynnig cyfleoedd cyfartal ar gyfer cyflogaeth a dilyniant gyrfa ac yn cefnogi iechyd a llesiant ein staff a'n gwirfoddolwyr o fewn amgylchedd teg a chynhwysol.
Canlyniad	- Anogir staff a gwirfoddolwyr i ddatblygu a gwneud cynnydd yn eu rolau a chânt eu cefnogi yn eu hiechyd a'u llesiant. - Unrhyw anghydraddoldebau, arfer annheg a bwlio ac aflonyddu yn cael eu nodi a'u trin yn brydlon. - Amlygu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i fod yn gyflogwr cynhwysol a galluogi staff i fod yn nhw'u hunain.
Aliniad ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd:  Rhoi pobl wrth galon popeth a wnawn  Ymdrechu i ddarparu a datblygu gwasanaethau rhagorol	

Action Plan 2024 -2026

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth yw llwyddiant yn hyn?
Datblygu model prentisiaeth wedi'i adnewyddu i ehangu'r ystod o rolau prentisiaeth a chynnig amrywiaeth o fewn llwybrau gyrfa.	Blwyddyn 1	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Gweithlu'r Dyfodol)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Mwy o gyfranogiad, yn enwedig o fewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gyda phwyntiau mynediad lluosog ar gyfer prentisiaid Gofal Iechyd erbyn Rhagfyr 2024.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth yw llwyddiant yn hyn?
				Cynnydd o 10% mewn prentisiaethau anghlinigol.
Cynyddu ein monitro o'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hannog i wneud cynnydd a chael cyfleoedd i ddysgu a datblygu.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Datblygu Pobl)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Sefydliar system i gofnodi a monitro'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu a chynyddu cyfranogiad y rhai mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
Hyrwyddo cynllun gwarantu cyfweiliad y Lluoedd Arfog a thargedu ymgyrchoedd recriwtio i gydnabod y cyfraniad y gall cyn-filwyr, milwyr wrth gefn, gwirfoddolwyr cadetiaid sy'n oedolion a theuluoedd milwrol ei wneud i'n gweithlu.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Recriwtio a thîm Partneriaeth a Chynhwysiant)	Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog	Cynnydd o 10% yn nifer y staff o fewn ein gweithlu sy'n nodi eu bod yn dod o gymuned y Lluoedd Arfog.
Bydd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Cadw Staff Nyrsio a Meddygol yn nodi cyfleoedd sy'n galluogi staff i rannu profiadau diwylliannol unigryw er mwyn nodi, darparu a gwireddu cyfleoedd i weithio'n	Diwedd Blwyddyn 1	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Gweithlu)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Y nod fydd lleihau trosiant staff o: • Meddygol: 1% yn 2024/25 • Nyrsio: 0.5% yn 2024/25

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth yw llwyddiant yn hyn?
wahanol ar draws y Bwrdd Iechyd.				
Amlygu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i fod yn gyflogwr cynhwysol a galluogi staff i fod yn nhw'u hunain yn y gwaith.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Gweithlu)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu dull strategol o gymryd rhan mewn cynlluniau achredu cenedlaethol sy'n meincnodi arfer gorau e.e. Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, Hyderus o ran Gofalwyr, Ymwybodol o Gyn-filwyr, Safon Balchder Mewn Cyn-filwyr.
Byddwn yn parhau i gefnogi ein gweithlu trwy ddatblygiad a gweithgareddau ein rhwydweithiau staff.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Partneriaethau Strategol, tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant)	Strategaeth 10 mlynedd Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Cynllun Gweithredu LGBTQ+	Cynnydd o 10% mewn aelodaeth ar draws pob rhwydwaith staff.
Trwy ddadansoddi'r data byddwn yn datblygu dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n effeithio ar ein gweithlu a'u cyfle i gamu ymlaen yn eu gyrfa.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Tîm Cynllunio'r Gweithlu a thîm Gwybodaeth am y Gweithlu)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Parhau i ddadansoddi ac adrodd ar ddata bwlch cyflog yn arbennig rhyw, anabledd ac ethnigrwydd, yn ogystal â ffynonellau eraill e.e. cyfweiliadau ymadael.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth yw llwyddiant yn hyn?
				Datblygu mentrau i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddilyniant gyrfa sydd wedi'u nodi e.e. cynllun cadw meddygol.
Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu arferion recriwtio sy'n hygyrch i'n poblogaeth ac yn annog ceisiadau gan ein cymunedau amrywiol.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Recriwtio)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Y Tîm Recriwtio yn gallu cynnig amrywiaeth o opsiynau i ymgeiswyr i rolau wedi'u targedu wrth wneud cais am swyddi e.e. ceisiadau all-lein, ceisiadau byr.
Byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y bobl sy'n ymgeisio fel gwirfoddolwyr Bwrdd Iechyd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Tîm Gweithlu'r Dyfodol)	Strategaeth 10 mlynedd y Gweithlu, Datblygu Sefydliadol ac Addysg	Tystiolaeth o amrywiaeth cynyddol yn nodweddion adroddedig gwirfoddolwyr y Bwrdd Iechyd.
Byddwn yn darparu gwasanaeth iechyd galwedigaethol hygyrch i gefnogi pob gweithiwr pan fydd ganddynt bryderon am eu hiechyd.	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm Iechyd Galwedigaethol)	Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith GIG Cymru Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) Deddf Cydraddoldeb (2010)	Bydd 95% o apwyntiadau Iechyd Galwedigaethol yn cael eu cynnig o fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr atgyfeiriad
Byddwn yn tyfu ein rhwydwaith o Hyrwyddwyr Llesiant ar draws y sefydliad i	Diwedd Blwyddyn 2	Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (tîm	Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a	Cynnydd yn nifer yr Hyrwyddwyr Llesiant sy'n darparu cefnogaeth mewn lleoliadau clinigol.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud	Erbyn	Cyfarwyddiaeth/ Adran Arweiniol	Yn rhyng-gysylltiedig ag ysgogwyr polisi / deddfwriaeth eraill	Beth yw llwyddiant yn hyn?
gefnogi'r gwaith o ledaenu negeseuon iechyd a llesiant i staff, yn enwedig mewn meysydd lle gallai staff fod wedi'u hallgáu'n ddigidol neu lle mae rôl eu swydd yn effeithio ar yr amser sydd ar gael i gael mynediad at negeseuon digidol		Iechyd Galwedigaethol)	Gwasanaethau Cymdeithasol Fframwaith Iechyd a Llesiant y GIG a gefnogir gan siarteri cytundeb di-dâl Llywodraeth Cymru - Blinder a Chyfleusterau a Bydwreigiaeth.	

Casgliad

Mae gwasanaethau iechyd a gofal ond yn un rhan o system gymhleth sydd angen cydweithio'n well i wella canlyniadau iechyd a llesiant i'n poblogaeth, gan alluogi pawb i fyw bywydau iach, bodlon a llewyrchus. Rydym hefyd am sicrhau amgylchedd cefnogol, teg a chynhwysol i'n staff a'n gwirfoddolwyr. Ni ellir cyflawni hyn heb ddefnyddio lens cydraddoldeb. Yn ogystal â lleihau anghydraddoldebau a gwella profiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, staff a gwirfoddolwyr, ein nod yw nodi a dileu achosion sylfaenol anghydraddoldeb a phrofiad gwael. Bydd ein hamcanion cydraddoldeb 2024-2028 yn darparu'r sylfeini ar gyfer gweithredu, drwy gynnwys ein staff, gwirfoddolwyr, cleifion, pobl yn ein cymunedau a phartneriaid allweddol, a hynny'n barhaus.

Monitro a Gwerthuso

Yn dilyn mabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028, y camau nesaf fydd gweithio gydag adrannau a gwasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd i roi'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun gweithredu ar waith. Bydd cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei fonitro trwy broses Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd y Gyfarwyddiaeth, a hefyd yn cael ei asesu'n flynyddol trwy Adroddiad Blynnyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cael ei ystyried gan ein Fforwm Partneriaeth Staff, Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant y Bwrdd Iechyd a chan ein Bwrdd cyn ei gyhoeddi.

Cysylltu â ni

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch, neu unrhyw un o'n cyhoeddiadau eraill, mewn fformatau printiedig neu amgen a/neu ieithoedd eraill, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Cyfeiriad:	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Adeilad Ystwyth, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3BB
Rhif ffôn:	01267 239554
Gwefan:	www.hywelddahb.wales.nhs.uk
X (Twitter gynt):	@HywelDdaHB @BIHywelDda
Facebook:	www.Facebook.com/HywelDdaHealthBoard www.Facebook.com/BwrddIechydHywelDda
Ebost:	Inclusion.Hdd@wales.nhs.uk